

Ymgynghoriad Eryri

Ymatebion

O'r hwb ymgynghori ar-lein, cawsom gyfanswm o wyth ymateb, y cyfan wedi'u derbyn o fewn y platfform ymgynghori Saesneg.

Gwnaethpwyd sawl sylw am Gynllun Coedwigoedd Eryri ac fe'u trosglwyddwyd i dimau eraill yn CNC.

Roedd mwyafrif y sylwadau yn ymwneud â choetiroedd llai Coed Eryr, Cae Dafydd, Dolfriog a Hafod y Wern. Roedd y sylwadau hyn yn cynnwys y canlynol:

- Balch o weld bod symudiad tuag at adfer coetiroedd hynafol.
- Angen eglurder pellach ynghylch strategaethau i symud tuag at goetiroedd hynafol.
- Esboniad gwell o allwedd map ac angen lawrlwythiadau haws o'r platfform hwb ymgynghori.
- Siom ynghylch dyddiadau llwyrwgwmpo coed yn Hafod y Wern ar ôl difrod storm.
- Angen clirio llwybrau troed yn well ar ôl difrod storm.
- Pryder ynghylch cyflenwadau dŵr mewn ardaloedd coedwig.
- Balch o weld bod gwaith i edrych ar wella gwerth hamdden y goedwig.

Mae'r holl sylwadau hyn wedi'u nodi, a'u trosglwyddo i dimau perthnasol CNC.

Mae'r gwaith tuag at goetiroedd hynafol yn seiliedig ar benderfyniadau fesul safle a wneir gan y tîm gweithrediadau. Lle bo modd, bydd llwyrwgwmpo yn cael ei osgoi: er y gallai hyn fod yn gyflymach, mae'n debygol o niweidio rhywogaethau sy'n weddill. Y dewis a ffefrir yw gweithrediadau teneuo llai, er mwyn trawsnewid y safleoedd yn raddol. Yn dibynnu ar gyflwr presennol y safle, gall y trawsnewidiadau hyn gymryd degawdau i'w cwblhau.

[Cyfoeth Naturiol Cymru / Rhestr Coetiroedd Hynafol](#)

Disgwylir i'r gweithrediadau cyfredol yn Hafod y Wern gychwyn yn fuan, er y bydd angen clirio'r rhan uchaf yn gyntaf, gan fod y safle'n eistedd uwchben Ardal Cadwraeth Arbennig Gwyfrai, felly mae angen cyfyngu ar faint o goed sy'n cael eu cwmpo er mwyn lleihau'r pylsiau gwaddod sy'n cael eu rhyddhau i mewn i'r afonydd. Mae hyn hefyd yn arwain at gyflenwadau dŵr sy'n cael eu tynnu o'r ardaloedd coedwig; bydd cynlluniau rheoli dŵr yn cael eu drafftio yn y cam llennyrch, a fydd yn helpu i leihau unrhyw newidiadau yn llif y dŵr. Dros amser, bydd datblygu ardaloedd glannau afonydd o amgylch dyfrffyrdd yn gwella ansawdd dŵr ac yn lleihau peryglon llifogydd dros amser.